JBryantNewport
@JBryantWales
jayne.bryant@assembly.wales

Jayne Bryant AM
Assembly Member for Newport West

Annwyl Aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol,

Mae'n bleser gen i amgáu adroddiad a luniwyd gan Age Cymru ar ôl i fi gadeirio eu trafodaeth bord gron ar unigrwydd, a gynhaliwyd yn fy etholaeth yn gynharach eleni. Roedd y drafodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff amrywiol, gan gynnwys sefydliadau o'r trydydd sector, cymdeithasau tai, darparwyr cludiant a chynrychiolwyr gwleidyddol, sydd wedi ymrwymo i barhau i gydweithio er mwyn sicrhau bod gan Gymru gymunedau tosturiol i bawb.

Fel y nodir yn yr adroddiad, mae angen mynd i'r afael ag ystod o heriau er mwyn taclo'r broblem unigrwydd ymysg pobl hŷn, ond, yn yr un modd, mae sawl ateb posibl i'r heriau hyn. Yn wir, mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o ddulliau sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd, ac efallai y bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn awyddus i'w hefelychu ledled y sir er mwyn helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd ymysg pobl hŷn.

Gobeithiaf fod yr adroddiad yn ddefnyddiol i chi ac yn eich ysbrydoli, a byddwn yn eich annog i gysylltu ag Age Cymru am ragor o wybodaeth. Fel y gwelir yn yr adroddiad, gallwch gysylltu â Rachel Lewis, Rheolwr Polisi Age Cymru ar 029 2043 1555, neu drwy e-bost ar rachel.lewis@agecymru.org.uk

Cofion,

Jayne Bryant

Aelod Cynulliad dros Orllewin Casnewydd